



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Mr Gareth Clubb

20 Ionawr 2016

Annwyl Mr Clubb

Rwy'n ysgrifennu oherwydd llythyr a gawsom gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dyddiedig 9 Rhagfyr 2015 ynghylch eich cŵyn am arddangosfeydd a gynhaliwyd ym mis Medi 2015 am Goridor yr M4 ger Casnewydd.

Rwyf wedi cwblhau adolygiad llawn o'r cwynion a godwyd gennych yn eich llythyr ynghylch y deunydd sy'n gysylltiedig ag Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd am Goridor yr M4 ger Casnewydd a gynhaliwyd ym mis Medi 2015, yn enwedig o ran cydymffurfio â Chod y Gwasanaeth Sifil. Cafodd eich cŵyn ei ystyried o dan Gam 2 y broses sy'n cael ei disgrifio ym mholisi a gweithdrefn Gwynion Llywodraeth Cymru, sydd ar gael drwy'r post drwy wneud cais neu ar ein gwefan ar:

[http://gov.wales/contact\\_us/makeacomplaint/complaintspolicy/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/complaintspolicy/?skip=1&lang=cy)

Credir bod yr wybodaeth a gyhoeddwyd yn neunydd Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd Coridor yr M4 ger Casnewydd wedi ei gaffael, ei brosesu a'i gyflwyno yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil.

Cafodd yr wybodaeth ei chasglu a'i thrin mewn dull briodol, a daeth y dystiolaeth o adroddiadau manwl a baratowyd gan arbenigwyr technegol wedi eu harolygu gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a'r penderfyniad terfynol gan Weinidog Cymru sydd â chyfrifoldeb.

Roedd y ffeithiau a'r materion perthnasol wedi'u gosod mewn ffordd a olygai bod modd i randdeiliaid edrych ar yr wybodaeth mewn amrywiol fanylder, er enghraifft yn amrywio o

ffeithluniau syml a gyflwynir mewn taflen grynhoi 4 tudalen, i daflen wybodaeth 17 tudalen mwy manwl gyda rhagor o gefndir, i Achos Busnes 108 tudalen gyda'r holl fanylion ynddo.

Ar y cyfan, ystyrir bod yr wybodaeth wedi'i chyflwyno mewn dull teg, gan adlewyrchu ymrwymiad y Gwasanaeth Sifil i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd yr holl ddogfennau cryno ar gael yn ddwyieithog, ac roedd yn bosib i randdeiliaid gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis mewn arddangosfeydd cyhoeddus. Gallai'r rhanddeiliaid edrych ar yr holl wybodaeth naill ai yn yr arddangosfeydd neu ar-lein, ac roedd arbenigwyr a swyddogion technegol perthnasol ar gael i ateb unrhyw ymholiadau gan randdeiliaid neu geisiadau am wybodaeth.

Ystyrir bod yr wybodaeth yn ddi-duedd yn wleidyddol ac nad oedd unrhyw ystyriaethau gwleidyddol wedi dylanwadu arni, ac nid oes tystiolaeth i awgrymu bod swyddogion wedi gadael i unrhyw safbwyntiau gwleidyddol personol ddylanwadu arnynt.

Os ydych yn parhau yn anfodlon gyda'n hymateb i'ch cŵyn neu os ydych yn teimlo nad yw eich cŵyn wedi ei ystyried yn briodol, mae gennych yr opsiwn i gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n gorff annibynnol o'r Llywodraeth, ac mae'n bosib cysylltu â hwy ar:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF35 5LJ  
Rhif ffôn: 0300 790 0203  
E-bost: [ask@ombudsman-wales.org.uk](mailto:ask@ombudsman-wales.org.uk)  
Gwefan: [www.ombudsman-wales.org.uk](http://www.ombudsman-wales.org.uk)

Yn ôl cais y PSOW, anfonir copi o'r ymateb hwn atynt.

Yn gywir



Matthew Jones